**CYMDEITHAS HANES PLAID CYMRU HISTORY SOCIETY**

**Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 1 Ebrill 2025 drwy Zoom**

**Yn bresennol** Dafydd Williams (Cad) Stephen Thomas (Tr), Meri Griffiths, Dafydd Griffiths, Meirick Davies, Penri Williams, Brian Thomas, Viv Pugh, Eluned Bush

**Cofnodion y cyfarfod diwethaf** Fe'u cymerwyd fel cofnod cywir

**Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf**

- **World microfilms-** dim byd i'w adrodd ar hyn o bryd
- **Cynhadledd Gwanwyn** Codwyd ein baneri Newydd yn y gynhadledd a chafodd dderbyniad cadarnhaol iawn gan gynrychiolwyr
- **Marwolaeth Emrys Roberts** Cytunwyd i roi'r erthygl a gyhoeddodd Dafydd Wiliams yn Barn ar wefan y Gymdeithas. Hefyd i ofyn i Dafydd Wigley am ei deyrnged yn y digwyddiad coffa i'w gyhoeddi ar y wefan
- **Lansiad llyfr Arwel Vittle** Mae Penri Williams wedi sefydlu cyfrif Eventbrite er mwyn i bobl gofrestru eu dymuniad i'w fynychu. Bydd y Cadeirydd a'r Ysgrifennydd yn trefnu'r cyhoeddusrwydd ar gyfer y digwyddiad o 1 Mehefin ymlaen

**Gohebiaeth**

- **Oddiwrth Aled Eurig** 1) Mae'n hapus i ni roi ei deyrnged i Dafydd El ar ein gwefan. 2) Byddai'n falch pe bai'r Gymdeithas yn dymuno iddo gyflwyno a thrafod ei gofiant o Dafydd El mewn digwyddiad gan y Gymdeithas. Cytunwyd i awgrymu i Aled ein bod yn trefnu digwyddiad o'r fath ym mis Tachwedd yn Llandaf
- **Oddiwrth Alfons Codina** yn gofyn am luniau o ansawdd uchel o Saunders Lewis ar gyfer y llyfryn y mae Alan Sandry yn ysgrifennu. Anfonodd Penri Williams rhai ato
- **Oddiwrth Rhianwen Charlton (Ty Gwynfor)** yn gofyn am luniau o Gwynfor Evans i'w rhoi i'r cwmni sy'n trefnu rhaglen "Dechrau Canu, Dechrau Canmol" yng Nghaerfyrddin yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Anfonodd Penri Williams rhai ati.
- **Oddiwrth Kathryn Jones**, darlithydd ym Mhrifysgol Abertawe sy'n ymchwilio i hanes y ffoaduriaid o Lydaw a ddaeth i Gymru ar ôl yr Ail Ryfel Byd, yn gofyn i ni anfon ei neges at D Hywel Davies. Fe wnaeth yr Ysgrifennydd ei anfon ato.
- **Oddiwrth Lowri Evans** yn ymchwilio ar gyfer y rhaglen "Stori Iaith" gydag Ian Gwyn Hughes yn gofyn am awgrymiadau o bobl i'w cysylltu â nhw a allai fod yn barod i siarad am y digwyddiadau a arweiniodd at sefydlu Plaid Cymru. Cysylltodd yr Ysgrifennydd ag Arwel Vittle a gytunodd i gysylltu â hi.
- **Oddiwrth Osian Owen** (Plaid Cymru Caernarfon) am ddigwyddiad, gyda Richard Wyn Jones fel siaradwr gwadd, y maent yn ei drefnu ar Fai 1af i goffáu'r cyfarfod a gynhaliwyd yno yn 1924. Anfonwyd manylion at aelodau'r Gymdeithas
- **Oddiwrth Myrddin ap Dafydd** (Gwasg Carreg Gwalch) yn chwilio am rywun i ysgrifennu erthygl i Hanes Byw ar hanes a chyfraniad menywod i dwf a datblygiad Plaid Cymru. Cysylltodd yr Ysgrifennydd ag Arwel Vittle a gytunodd i gysylltu â Myrddin.
- **Oddiwrth Gruff Rees (**Rondo Media) yn gofyn am fanylion am y digwyddiad i lansio llyfr Arwel Vittle ac unrhyw ddigwyddiadau eraill y mae'r Gymdeithas yn eu trefnu. Anfonodd yr ysgrifennydd y wybodaeth ato.
- **Oddiwrth Ben Jones** (Cwm Rhymni) yn gofyn am luniau o Emrys Roberts i gyd-fynd ag erthygl yr oedd yn ysgrifennu amdano ar gyfer y papur bro. Anfonodd Penri Williams nhw ato.
- **Oddiwrth Louise Evans** (PC Rhondda) yn gofyn am gymorth pellach i ymchwilio i hanes y Blaid yn y Rhondda yn ogystal â'r hyn a anfonwyd eisoes gan yr Ysgrifennydd at Jill Evans Anfonwyd y cais at holl aelodau'r Gymdeithas
- **Oddiwrth Hywel Williams** (Caernarfon) yn ein hysbysu y bydd y Rali i gofnodi cyfarfod cyntaf Plaid Cymru yn 1925 yn cael ei chynnal ym Mhwlheli ar 21 Mehefin 2025

- **Oddiwrth Rob Phillips** (LLGC) yn rhoi gwybod i ni 1) bod digideiddio'r deunyddiau, gan gynnwys bron pob eitem ar ein rhestr o awgrymiadau, iddynt wedi'i gwblhau. 2) Bydd Richard Wyn Jones yn traddodi'r Ddarlith Flynyddol ym mis Tachwedd. Gofynnodd hefyd am fanylion am ein trefniadau ar gyfer yr Eisteddfod; anfonwyd y manylion ato.

**Arian** £3094 yn y cyfrif

**Gweithgareddau 2025**

- **Eisteddfod Wrecsam. Traddodir** y ddarlith gan Ieuan Wyn Jones ar "O Gymru Fydd I Blaid Cymru- y siwrne) gyda Llyr Gruffudd yn cadeirio am 12.30pm ar y Ddydd Iau
- **Cynhadledd Hydref** Cynhelir yn Neuadd y Brangwyn, Abertawe ar 10/11 Hydref. Rydym yn aros I glywed os bydd yn bosibl i'r Gymdeithas gael slot yn y raglen heb dalu

**Gweithgor canmwlwyddiant** cyhelir y cyfarfod nesaf ar 10/4/25

**Unrhyw fater arall**

- Mae Ian Gwyn Hughes wedi cytuno i ysgrifennu ei atgofion personol o'i dad-cu, Lewis Valentine i'w cyhoeddi ar wefan y Gymdeithas.
- Bydd yr Ysgrifennydd yn anfon manylion Diwrnod Hanes Cymdeithas Dic Penderyn i'r aelodau

**Dyddiad y cyfarfod nesaf** 24 Mehefin am 5.30pm drwy Zoom

---

**CYMDEITHAS HANES PLAID CYMRU HISTORY SOCIETY**

**Minutes of meeting held on 1 April 2025 through Zoom**

**Attendees** Dafydd Williams (Ch) Stephen Thomas (Tr), Meri Griffiths, Dafydd Griffiths, Meirick Davies, Penri Williams, Brian Thomas, Viv Pugh, Eluned Bush (Sec)

**Minutes of last meeting** accepted as correct

**Matters arising from last meeting**

- **World microfilms**- nothing to report at present
- **Spring Conference** Our new banners were erected at the conference and received a very positive reception by delegates
- **Death of Emrys Roberts** It was agreed to put the article Dafydd Wiliams published in Barn on the Society's web site. Also to ask Dafydd Wigley for his tribute at the memorial event for publication on the web site
- **Launch of Arwel Vittle's book** Penri Williams has set up the Eventbrite account for people to register their wish to attend. The Chair and Secretary will organise the publicity for the event from 1 June onwards

**Correspondence**

- **From Aled Eurig** 1} He is happy for us to put his tribute to Dafydd El on our web site 2} He would be pleased if the Society would like him to present and discuss his biography of Dafydd El at a Society event. It was agreed to suggest to Aled that we organise such an event in November in Llandaf.
- **From Alfons Codina** requesting high quality pictures of Saunders Lewis for the booklet Alan Sandry is writing. Penri Williams sent them.

- **From Rhianwen Charlton** (Ty Gwynfor) requesting pictures of Gwynfor Evans to give to company organising a "Dechrau Canu, Dechrau Canmol" programme in Carmarthen later in the year. Penri Williams sent them to her.
- **From Kathryn Jones** a lecturer in Swansea University researching the history of refugees from Brittany who came to Wales after WW2 asking for us to send her message to D Hywel Davies. The Secretary forwarded it.
- **From Lowri Evans** researching for the "Stori Iaith" programme with Ian Gwyn Hughes asking for suggestions of persons to contact who may be prepared to talk about the events that led to the establishments of Plaid Cymru. The Secretary contacted Arwel Vittle who agreed to contact her
- **From Osian Owen** (Plaid Cymru Caernarfon) about an event, with Richard Wyn Jones as guest speaker, that they are organising on May 1st to commemorate the meeting held there in 1924. Details were sent to Society members.
- **From Myrddin ap Dafydd** (Gwasg y Carreg Gwalch) seeking someone to write an article for Hanes Byw on the history and contribution of women to the growth and development of Plaid Cymru. The Secretary contacted Arwel Vittle who agreed to contact Myrddin.
- **From Gruff Rees** (Rondo Media) requested details of the event to launch Arwel Vittle's book and any other events the Society is organising. The Secretary sent the information to him.
- **From Ben Jones** (Rhymney Valley) requested pictures of Emrys Roberts to accompany an article he was writing about him for the papur bro. Penri Williams sent them to him.
- **From Louise Evans** (PC Rhondda) requesting further help in researching the history of the Party in the Rhondda in addition to that already sent by the Secretary to Jill Evans. The request was sent to all Society members
- **From Hywel Williams** (Caernarfon) informing us that the Rally to commemorate the first meeting of Plaid Cymru in 1925 will be held in Pwllheli on 21 June 2025.
- **From Rob Phillips** (NLW) informing us that 1) the digitisation of materials including nearly every item on our list of suggestions to them has been completed. 2) Richard Wyn Jones will deliver the Annual Lecture in November. He also asked for details on our Eisteddfod arrangements; details were sent to him.

**Finance** £3094 in the account

**Activities 2025**

- **Eisteddfod Wrexham** The lecture by Ieuan Wyn Jones on "O Gymru Fydd i Blaid Cymru – the journey" with Llyr Gruffudd chairing will be held on the Thursday at 12.30pm
- **Autumn Conference** will be held in the Brangwyn Hall Swansea on 10/11 October. We are waiting to learn whether we can have a slot in the programme free of charge.

**Centenary working group** the next meeting will be held on 10/4/25

**Any other business**

- Ian Gwyn Hughes has agreed to write his personal recollections of his grandfather, Lewis Valentine for publication on the Society's web site.
- The Secretary will send details of the Dic Penderyn Society History Day to members

**Date of next meeting** 24 June 2025 at 5.30pm through Zoom